**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol CLA**

**Teitl: Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013**

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 er mwyn trosi Cyfarwyddeb 2010/75/EU ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn modd integredig). Mae'r Gyfarwyddeb yn cyfuno saith o Gyfarwyddebau a oedd yn bodoli eisoes. O ganlyniad i drosi'r Gyfarwyddeb, bydd cyfyngiadau mwy llym o ran llygredd aer, er bydd rhywfaint o hyblygrwydd i ymestyn dyddiadau cau ar gyfer gweithfeydd pŵer neu i hepgor y rheolau i weithfeydd eraill mewn achosion arbennig, yn amodol ar fodloni amodau penodol. Diben y Rheoliadau yw gwella iechyd a diogelu'r amgylchedd, tra'n gwneud y rheolau'n fwy clir ac yn haws i'w gweithredu.

**Gweithdrefn**: **Cadarnhaol**

**Materion technegol: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Ni chafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud yn ddwyieithog.

[21.2 (ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ym mharagraff 2 o'r memorandwm esboniadol bod hwn yn offeryn statudol cyfansawdd sy'n gymwys i Gymru a Lloegr yn unig ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ Senedd y DU. Fel yn achos Rheoliadau 2010, ni ystyrir iddo fod yn ymarferol i'r offeryn statudol hwn gael ei wneud yn ddwyieithog.

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Rhaid i'r aelod-wladwriaethau drosi Cyfarwyddeb 2010/75/EU yn ddeddfwriaeth genedlaethol erbyn 7 Ionawr 2013. Ni fwriedir cyflwyno'r Rheoliadau hyn gerbron y

Cyfarfod Llawn tan 29 Ionawr 2013. Erbyn i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod, ac o bosib eu cymeradwyo (daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y seithfed diwrnod ar ôl y diwrnod iddynt gael eu gwneud), byddant wedi methu'r terfyn amser ar gyfer eu trosi'n ddeddfwriaeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
**Ionawr 2013**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i ddilyn:**